# Recorders' Newsletter

**Cylchlythyr y Cofnodwyr 38 a 39 (Ionawr 2019)**

Mae'n bosibl eich bod chi'n meddwl am y rheswm dros yr oedi ers y cylchlythyr diwethaf a pham mae dyddiad Ionawr 2019 sydd ar yr un yma. Yn anffodus, mae gwaith arall wedi cael blaenoriaeth ac rydyn ni'n ymddiheuro am hynny. Felly maddeuwch i ni. Dyma grynodeb o gofnodion 2018. Bydd y cofnodion rydych chi wedi'u hanfon ar gyfer 2019 yn cael eu defnyddio yn y cylchlythyr nesaf, fydd yn cyrraedd yn fwy prydlon, gobeithio. Parhewch i anfon eich lluniau a diolch am eich amynedd.

## Adar

Anfonodd David Harry restr hir o adar gardd yn ystod y gaeaf 2018. Roedd y rhestr wedi cynnwys ***telor penddu***, ***dryw'r eurben*** a ***llinos bengoch.*** Yn ystod y tywydd garw ym mis Mawrth, roedd ***adar yr eira*** a ***chochion dan adain***, yn ogystal â dros 20 o ***adar y to***, ***gleision y dorlan***, ***bronwennod y dŵr*** a ***giachod*** ar afon Ewenni Fach gyferbyn.

Lle roeddwn i'n arfer byw, roedd coedwig oestrwydd De-ddwyrain Swydd Hertford yn gadarnle i'r ***pendewion***. Dyma ein pila mwyaf gyda phig enfawr sy'n gallu gwasgu cerrig. Dyma rhywogaeth adar arall y bydd niferoedd yn gostwng yn y hirdymor a dydy hi ddim mor gyffredin eu gweld nhw yn Swydd Hertford. Maen nhw wastad wedi bod yn brin yn Ne Cymru, ond gwelodd Graham Powell un yn hedfan uwchben maes parcio Heol Sardis, Pontypridd, ym mis Ionawr 2018. Dywedodd fod '*yr adenydd i'w gweld yn dryloyw yn erbyn yr awyr las'.* Roedd mewnlifiad o bendewion o'r cyfandir i'r DU yn ystod y gaeaf 2017/18, cyrhaeddodd rhai bwynt mor orllewinol â RhCT.

Cafodd y cyfnod o dywydd garw (The Beast from the East) effaith ddinistriol ar boblogaeth ein ***Siff-siaffod*** (gweler cofnodion blaenorol isod). Dyma ein teloriaid cyntaf i ddychwelyd bob mis Mawrth. Maen nhw'n treulio'r gaeaf yn ne Ewrop gan amlaf. Mae'n debygol mai'r oerni ym mis Mawrth 2018, a oedd yr un peth yn ardal Môr y Canoldir, oedd yn gyfrifol dros ddiffyg sŵn Siff-siaffod yn ein coedwigoedd a pharciau ym mis Ebrill. Chlywais i mo fy ***siff-siaff*** cyntaf y flwyddyn ym Mhont-y-clun tan 24 Mawrth. Gwelodd Paul Marshman ei ***wennol*** gyntaf y flwyddyn ar 7 Ebrill a 6 ychwanegol yn hedfan tua'r gogledd i Gwm Rhondda Fawr dros hanner awr. Gwelodd ei gornhedyddion y coed cyntaf y flwyddyn ar 12 Ebrill (roedd dau yn canu yn ardal caeau Llanilltud Faerdref ar yr 20$^{fed}$, yn ogystal â dau delor yr helyg a bras y cyrs). Ar 9 Ebrill, roedd hyd at 6 ***gwennol y glennydd*** yn hedfan o gwmpas Pontypridd ac roedd gwenoliaid yn hedfan trwy'r dref i fyny Cwm Rhondda Fach ar 11 Ebrill. Ar 13 Ebrill, clywodd Paul Marshman 4 ***telor yr helyg*** yn canu yn Nglyncornel a chlywais i nhw am y tro cyntaf o Heol Pantgraigwen, Pontypridd, ar yr un diwrnod. Gwelodd

Jeff Williams wenoliaid y glennydd ym Mhontypridd ar 15 Ebrill. Erbyn 23 Ebrill, roedd gwenoliaid y bondo yn ôl ym Mhontypridd a chafodd 3 ***telor y coed*** eu clywed yn canu yng Ngwarchodfa Natur Leol Glyncornel lle gwelodd Paul M ***walch marth*** yn hedfan uwchben Tomenni'r Gelli. Arhosodd ***hwyaid danheddog*** yn hwyr i mewn i'r gwanwyn, gyda gwryw a dwy fenyw yn Llwynypïa ar 1 Mai 2018 a dwy (gwryw a menyw) ym Mharc Pontypridd ar 3 Mai (Ray Edwards). Ar 3 Mai, clywodd Liz Dean ***gog*** yn ardal Cwm Saebren, Treherbert, a chlywais un yn y Rhigos ar 22 Mai. Gwelodd Jeff Williams ei ***wenoliaid duon*** cyntaf y flwyddyn yn y Pentre ar 4 Mai lle roedd 8 ohonyn nhw. Roedden nhw yn ôl ym Mhontypridd ar yr 8fed.

Yn ôl Mark Evans, *ar 29 Mai, es i i edrych ar y **troellwyr mawr** yn ardal Gwaun Helen, uwchben Cefnpennar. Roedd hi'n noson berffaith gyda llawer o wyfynod ar yr adain, a nifer o wybed a mosgitos. Am gyfnod byr, roedd dau wryw yn gwneud sŵn, ond aeth un gwryw (gwryw B) yn dawel neu symudodd i safle arall. Hedfanodd un gwryw yn agos iawn; gan fy nghylchu o fewn tri metr, a hynny pan oedd hi'n olau felly roedd modd i mi weld manylion ei blu. Gwelais i fenyw yn hela yn ddiweddarach. Yn y diwedd, aeth y gwryw i ganu ar yr un glwyd â'r llynedd. '*Yn ddiweddarach, *es i a Mike Hogan i weld y **troellwyr mawr** ar Fynydd Gethin ar 7 Mehefin. Mae'r ardal heb goed yn rhy fawr i'w thirfesur gan y ddau ohonon ni mewn un ymweliad, felly aethon ni i hanner gogleddol y safle. Yn anarferol ar gyfer y safle, sy'n uwch na 450 metr, roedd y tywydd yn braf a chofnodon ni dri gwryw, a phedwerydd un o bosibl (mae'n bosibl bod gwrywod A a C yr un aderyn) a menyw. Dyma'r nifer uchaf o **droellwyr mawr** rydyn ni erioed wedi'i nodi yno. Ar y ffordd i lawr, gwelais i'r pâr Gwaun Helen a'u clywed'.* Mae'r arolwg mae Mark a Mike yn ei wneud yn dangos bod poblogaeth troellwyr mawr yn dal i fynd o nerth i nerth ac maen nhw o bwysigrwydd cenedlaethol yn y DU.

Anfonodd Stuart Jones grynodeb da o adar (a rhywogaethau eraill) ar gyfer ardal y Graig, Pontypridd, '*yn ystod y gaeaf, mae **telorion y coed** a **thingochiaid** arferol wedi bod yn y goedwig o gwmpas Pwll Shoni, gydag o leiaf tri thelor y coed yn canu. Dyma ardal gyda chymysgedd amrywiol o gynefinoedd gyda phorfa arw, corslyd â ffiniau coetir deiliog a thomenni sorod sy'n wyllt eto. Mae hyn i gyd ar safle sy'n llai nag un filltir sgŵar. Yn ogystal â **chornhedyddion y coed** a **theloriaid yr ardd**, gwelais **fras y cyrs** gwrywaidd yn canu yn y glaswelltir corslyd wrth ymyl y goedwig. Roedd llwyth o degeirianau cyffredin yn tyfu yn y glaswelltir a gwelais i bili-pali doeddwn i ddim wedi'i weld o'r blaen. Yn ddiweddarach, des i i wybod mai **britheg berlog fach** oedd y glöyn byw. Dydw i ddim yn gwybod pa mor gyffredin yw'r pili-palod yma yn RhCT, ond dyna oedd y tro cyntaf i mi ei weld.*

*Mae llawer o fywyd gwyllt yn safle'r rhandiroedd. Dros y blynyddoedd, rydw i wedi ceisio rheoli fy rhandir i fod mor addas i fywyd gwyllt â phosibl, gan blannu llwyni brodorol cymysg, gosod pyllau bychain, gadael i ymylon fod  yn flêr a chompostio chwyn a brwsio gwair wedi'i dorri yn hytrach na'i losgi. Ar draws y safle cyfan, mae poblogaethau iach o amffibiaid ac adar preswyl megis **bronfreithod** a **chochiaid y berllan**. Eleni, rydw i wedi bod yn falch o weld **llinosiaid gwyrdd** yn dychwelyd am y tro cyntaf ers nifer o flynyddoedd. Mae pâr o **ddraenogod** hefyd wedi dod i fyw yma. Mae hyn yn dangos nad oes rhaid i gynhyrchiad bwyd fynd law yn llaw â dirywiad bywyd gwyllt. Does dim golwg o'r **wenoliaid y glennydd** a nythodd y llynedd yn y bocsys wedi'u gosod o gwmpas fflatiau Gelli Wion, ond mae **gwennol y glennydd** yn nythu ym mylchau'r wal garreg tua chefn y maes parcio yn ysbyty Dewi Sant'.* Daeth y cofnod diwethaf yma ar ôl i Ade Williams fy ffonio i ddweud ei fod wedi gwylio gwenoliaid y glennydd yn nythu yn nyllau draenio'r wal 'criblock' yn y maes parcio yn ysbyty Dewi Sant. Rydw i wedi gwylio gwenoliaid y glennydd yn hedfan o gwmpas

Pontypridd ers blynyddoedd. O'n hen swyddfeydd ar lawr uchaf Tŷ Sardis, roedden ni arfer gweld golygfeydd gwych o adar yn hedfan uwchben toeau'r dref. Mae i weld eu bod nhw'n hapus i ddefnyddio unrhyw dyllau draenio addas mewn waliau fertigol, neu waliau sy bron yn fertigol, gannoedd o fetrau o'r afon agosaf hyd yn oed. Dydyn ni ddim yn gwybod pa mor hir maen nhw wedi bod yn nythu yn yr ysbyty, ond rydw i wedi cysylltu â'r Bwrdd Iechyd i roi gwybod am yr hyn sydd gyda fe. Does dim llawer o ysbytai sydd â'u cytref gwenoliaid y glennydd eu hun, mae'n siwr!!

Yn 2019, mae arolwg ***titwod yr helyg*** (gwefan Ymddiriedolaeth Adareg Prydain). Yn ogystal â'u perthynas agos, sef ***titwod yr wern***, mae niferoedd yr adar yma wedi gostwng yn sylweddol dros y 30 blynedd diwethaf. Mae titwod yr helyg yn hoffi coetir gwlyb gyda boncyffion wedi'u pydru lle maen nhw'n cloddio eu nythod. Yn ôl y sôn, mae gan RCT lawer o goetiroedd addas. Eleni mae Richard Morgan wedi clywed a gweld titwod yr wern a thitwod yr helyg o gwmpas coedwig Bronwydd yn y Porth. Yn hwyrach ym mis Chwefror, gwelais ditw'r wern/titw'r helyg ym Mharc Gwledig Cwm Dâr. Ffordd o wahaniaethu rhwng y ddau aderyn, sy bron yr un peth, yw'r cri a chân. Rydw i'n gobeithio bod y ddau yn llai prin na'r hyn rydyn ni'n meddwl yn RhCT. Mae Ymddiriedolaeth Adareg Prydain a Chlwb Adar Morgannwg yn awyddus iawn i gael unrhyw gofnodion. Mae'r arolwg yn parhau tan 2020 gyda chymorth Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar.

Anfonodd Tony Swann grynodeb ardderchog arall o'r adar yng nghoedwig Brynna, Llanharan. *Ymweliad cyntaf y flwyddyn* (2018) *oedd 7 Ionawr lle cafodd 29 o rywogaethau eu cofnodi gyda'r uchafbwynt sef **barcud coch**. Ar 10 Ionawr, hedfanodd **gwylan gefnddu fwyaf** tua chyfeiriad y dwyrain. 14 Ionawr oedd dechrau'r gwanwyn ar gyfer **dringwyr bach** gyda dau bâr yn rhedeg ar ôl ei gilydd. Niferoedd da o **gochion dan adain** a nifer o **adar yr eira**. Hedfanodd **colomen wyllt** gyntaf y flwyddyn drosodd ar 26 Ionawr. Roedd **cnocell fraith fwyaf** yn drymio ac roedd caneuon y **bronfreithod** yn amlwg wrth iddyn nhw ganu ym mhennau uchaf y coed. Ar 1 Chwefror, daeth dau **ŵydd Canada** swnllyd. Gwelais **delor penddu** yn fy ardd gefn ar 15 Chwefror. Ar 21 Chwefror, dangosodd golfanod preswyl frys wrth baru. Ar 4 Mawrth, gwelwyd **cnocell werdd** eto yn y goedwig a **gwalch glas** gwrywaidd yn hedfan i fyny i Ewenni Fach yn hytrach na thrwy'r goedwig yn unig. 15 Mawrth – roedd 2 **siff-siaff** yn galw o'r coed uchaf. 18 Mawrth – daeth yr eira â llu o **bilaod gwyrdd** a hedfanodd dros y goedwig heb stopio. Roedd y goedwig heb lawer o adar oherwydd yr eira. Mewn 2 awr, roeddwn i wedi ei chael hi'n anodd dod o hyd i 12 rhywogaeth gwahanol.*

*13 Ebrill – dyma'r awgrym cyntaf o'r gwanwyn. Roedd **telorion yr helyg** a **thelorion penddu**, o'r diwedd, i'w gweld yn ymuno â'r ychydig **siff-siaffod** a oedd yma cyn y cyfnod diwethaf o eira. Dal dim arwydd o wennoliaid yn yr ardal. Daeth grŵp Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De A Gorllewin Cymru ar ymweliad ar 21 Ebrill. Cafodd **telor yr ardd** cyntaf ei weld o'r diwedd yn canu o goed trwchus. Roedd modd cymharu'i gân ag un **telor penddu** cynharach. Gwelwyd **gwennol** gyntaf y flwyddyn dros y goedwig ar 22 Ebrill. Yn hwyr iawn a'r tro cyntaf i mi weld gwennol leol y flwyddyn yma. Dyma 50*[fed] *rhywogaeth y flwyddyn a hynny bythefnos yn fwy araf i'w gyrraedd na'r llynedd. Ar 29 Ebrill, roedd pâr o **wenoliaid y glennydd** yn hedfan. Dim ond 1 **siff-siaff** oedd yn galw o'i gymharu â'r 2 **delor yr ardd** a sawl **telor penddu**. Roedd **cnocell werdd** yn y cae i ogledd y goedwig ac mae wedi aros yn yr ardal ers i'r gaeaf ddod i ben. Mae hi dal yn oer iawn gan ystyried mai mis Ebrill yw hi. Mae cyfanswm y mis yn adlewyrchu'r tywydd. Bore twym braf ar 5 Mai. Yr*

*uchafbwynt oedd **cog** a arhosodd dros awr cyn symud tua'r gogledd. Dal dim **gwenoliaid y bondo**. 6 Mai ac roedd y 2 **wennol ddu** gyntaf yn bwyta dros y goedwig gyda'r hwyr, yn ogystal â 2 **wennol**. Ar 7 Mai, treuliais noswaith dwym arall yn gwylio adar yn hedfan uwchben y goedwig gan weld pâr o **hutanod mynydd** yn mynd tua'r gogledd am 18:15. Dyma oedd y tro cyntaf i mi weld y rhywogaeth yma yn mudo i'r gogledd o Goedwig Brynna. Yn hwyrach, gwelwyd **ydfran** yn hedfan ac o'r diwedd, 2 o **wenoliaid y Bondo**. Ar 28 Mai, gwelwyd **cnocell fraith fwyaf** wrywaidd yn cario bwyd. Roedd y nyth wedi'i chuddio'n dda, mae'n rhaid. Gwelwyd nifer o adar yn hedfan yn ystod dyddiad cyntaf mis Mehefin gan gynnwys pâr o **wyddau Canada**, **barcut coch**, **cigfran** ac **ydfran**. Roedd nifer o **jac-y-dos** i'w gweld ar 21 Mehefin yn cario gwlân defaid ar gyfer eu nythod. Gwelwyd y **jac-y-do** cyntaf ei weld, dyma arwydd y bydd adar yn bwrw plu cyn bo hir. Gwelwyd 8 **titw cynffon hir** gyda'i gilydd ar 30 Mehefin. Rydw i'n tybio mai grŵp teulu oeddyn nhw yn hytrach na phraidd o ditwod.*

*Gwelwyd **cwningen** unigol ar 5 Gorffennaf. Sawl un arall sy'n cuddio! Telor yr ardd yn bresennol gyda 3 arall wedi'u gweld. Gwelwyd **madfall** yn torheulo wrth y rheilffordd ar 20 Gorffennaf. Dyma gofnod anghyffredin ac sy'n adlewyrchu'r haf gwych rydyn ni wrthi'n ei fwynhau. Hedfanodd 2 **golomen wyllt** yn hedfan tua'r gogledd ar 27 Gorffennaf. Mae'n dod yn fwyfwy anodd i weld a chlywed rhywogaethau gan fod adar yn bwrw plu. Uchafbwynt y daith ar 3 Awst oedd **gwalch glas** benywaidd swnllyd iawn. Ar 9 Awst, roedd 100+ **jac-y-do** yn bwyta morgrug hedegog yn y caeau i dde'r gronfa ddŵr dros y rheilffordd. Yn anffodus, byddwn ni'n colli'r caeau yma o ganlyniad i ystad tai. Mae'r ardal yma yn cael ei defnyddio gan **gochion dan adain** ac **adar yr eira** yn ystod misoedd y gaeaf. Yn annisgwyl, gwelais **wennol ddu** yn hedfan tua'r de a cheisio bwyta yn y glaw mân ar 19 Awst. Ar 13 Medi, **gwalch marth** yn hedfan tua'r gogledd oedd cyntaf y flwyddyn ar gyfer y safle yma. Ar 24 Medi, gwelwyd **sgrech y coed** yn claddu mes, a 2 **ddelor y cnau** yn agor mes. Dyma rywbeth dydw i wedi sylwi arno o'r blaen. Er mawr syndod, gwelais **siff-siaff** yn yr haul, yn ogystal â'r **telor penddu** gwrywaidd. Ar 29 Medi, gwelwyd y praidd hydrefol cyntaf o ditwod, yn bennaf **titwod cynffon-hir**, **titwod tomos las** a **titwod mawr** ond gyda **dringwr bach** ac un **titw penddu.***

*28 Hydref – es i'r chwarter am y tro cyntaf yn dilyn ychydig wythnosau ar Ynysoedd Sili. Roedd amrywiaeth rhywogaethau a nifer yr adar yn gyffredinol yn isel. Mae'r llawr dal yn galed ar ôl yr haf sych. Ar 29 Hydref, hedfanodd 30+ o **gochion dan adain** heibio ar ôl mynd i glwydo dros nos yn y goedwig. Hedfanodd **cigfran** gryglesiol heibio, mae'r rhywogaeth yma wedi bod ar goll o'r ardal yn ddiweddar. Hedfanodd **siff-siaff Siberia** tuag at ran is y goedwig o'r hen drac BMX tua de'r rheilffordd. Roedd y golygfeydd yn wych gan mai dyma ymwelydd prin i'r safle yma. 17 Tachwedd – mae nifer y rhywogaethau dal yn isel a'r uchafbwynt oedd gweld grŵp teulu o **fwncathod cyffredin**. Roedd dau riant a 2 aderyn ifanc yn galw'n uchel wrth iddyn nhw geisio hedfan trwy'r gwynt twym roedd un o'r rhieni yn ei ddefnyddio i esgyn. Ar ôl galw, trwy rwystredigaeth mae'n siwr, roedd y ddau aderyn ifanc wedi llwyddo i ddefnyddio'r gwynt a dechreuon nhw hedfan yn uwch. 25 Tachwedd – gwelais i dros 20 o rywogaethau mewn ymweliad unigol o'r diwedd. Roedd praidd o **linosod pengoch** a **philaon gwyrdd** ar ochr ddwyreiniol y safle gan fwyta'n uchel*

*yn y gwerni. 14 Rhagfyr – mae'r glaw wedi gwneud y tir yn fwy meddal. Mae hyn yn golygu bod lefelau rhywogaethau wedi dychwelyd i lefel arferol – cafodd 24 eu gweld mewn 3 awr. Chafodd dim anifeiliaid o'r gogledd eu gweld o ganlyniad i'r tywydd mwyn. 21 Rhagfyr – mae'n ddiwrnod gwlyb a gwyntog, cafodd **gwylan benddu** ei chwythu tua'r gorllewin, dyna rywogaeth nad yw'n cael ei chofnodi'n aml. 22 – diwrnod sych o'r diwedd. Roedd 2 **siglen lwyd** yn bwyta yng nghafn tŷ oedd yn ffinio'r ochr ogleddol ond yn well na dim, gwelwyd praidd o 20+ o **linosod** a hedfanodd tua'r de ond doedden nhw ddim wedi stopio. 31 Rhagfyr – taith olaf 2018. Dim byd i'w gofnodi. Nifer y rhywogaethau oedd 20 yn unig mewn 3 awr. Gwelwyd 61 o rywogaethau gwahanol yn 2018. Uchafbwynt y flwyddyn gymharol dawel oedd gweld pâr o hutanod mynydd.*

Ym mis Medi, rhoddodd Ann Gibbons wybod am farcut coch dros y Gilfach-goch. E-bostiodd Peter Morris gan ddweud *y byddai'n rhoi'r diweddaraf o ran adar dros y gaeaf ddiwethaf ar ben Cwm Clydach yma yn yr Hen Ynys-y-bŵl. Rydyn ni wedi gweld y myrdd arferol o **robiniaid cochion**, roedd tua 7 ar yr un pryd! **Mwyeilch, delorion cnau**, **titwod mawr**, **penddu** a **tomos las**. Dyma'r adar arferol yn bwyta o'n offer bwydo amrywiol. Eleni, rydyn ni wedi cael nythfa o 5 neu 6 o **adar y to** yn ein llwyn, a nythfa o **ditwod cynffon-hir**, tua 8 ohonyn nhw. Dros y blynyddoedd blaenorol, maen nhw wedi cyrraedd yn yr hydref a'r gwanwyn, yna wedi hedfan i ffwrdd. Eleni, maen nhw wedi aros yn ystod y gaeaf. Pethau bychain hyfryd gyda chynffonau hirach na'u cyrff! Roedd pâr o **siglennod brithion** yn aros hefyd. Maen nhw'n wyllt ar y bwrdd adar. Gwelwyd pâr o **gnocellau brith mwyaf** yn rheolaidd yn ystod y gaeaf, yn ogystal â **llwydiaid y berth** ac **esgyll brithion**. Yn achlysurol, gwelwyd pâr o **beneurynod**, **ysguthanod**, **turturod torchog**. **cochiaid y berllan** a **pilaod gwyrddion**. Yn hedfan uwchben oedd **}brain** a **phïod**, a gwelwyd ambell i **sgrech y coed** ar y gwair. Penderfynodd **bwncath** ddefnyddio ein coeden eirin fel man ffafriol nawr ac yn y man. Sylwon ni ar ambell i **broga** yn un o'n pyllau, ond roedd hynny cyn y 'Beast From The East' a storm Emma, felly rydw i'n credu bod grifft y broga wedi rhewi. Mae dŵr yn gollwng o'r pwll, felly un o'm tasgau i'w wneud dros yr haf yw ei drwsio.*

**Planhigion**

Mae Paul Marshman wedi sôn yn y gorffennol fod flodau coetir penodol, sydd wedi'u cofnodi o ardal Llwynypïa tua chanrif yn ôl, yn brin neu ddim yn bodoli yn y coedwigoedd lleol. Un o'r rhywogaethau prin yng nghoedwigoedd Cwm Rhondda yw ***blodyn y gwynt***, ond yn 2018 roedd Paul yn falch o weld y blodeuo gorau yng Nglyncornel. Mae Paul hefyd wedi nodi bod nifer da o ***fioledau pêr***. Roedd defaid arfer pori Coedwig Glyncornel hyd at 30 mlynedd yn ôl, ac roedd haen dda o lwyni. Ers i'r defaid fynd, mae'r goedwig wedi newid yn sylweddol mewn ffordd naturiol gydag is-dyfiant dwys sy'n aildyfu. Mae'r newid yn y strwythur wedi'i adlewyrchu mewn sifftiau yng nghymunedau adar coedwig gyda nifer is o ***wybedogion brith*** a ***thingochiaid***, ond nifer uwch o ***delorion penddu*** a ***siff-siaffod*** (ac eraill). Trwy ddegawdau o gofnodi, mae Paul wedi gweld (a chofnodi) yn uniongyrchol y newidadau o ran planhigion ac anifeiliaid.

Nifer y ***Tegeirianau'r Waun*** o Fynwent Cefn Parc oedd 7 planhigyn blodeuo yn unig yn 2018. Wrth i'r tegeirianau yma wrthod lluosi, mae cannoedd o degeirianau brych cyffredin, ac mae glaswelltir y ddôl wair llawn blodau yn arbennig. Ym mis Mai, daethpwyd o hyd i 2 safle newydd ar gyfer ***cwcwll y mynach*** ar y Nant Dowlais yn Llanilltud Faerdref.

Cofnododd Tim Rich y rhywogaeth dant y llew brin iawn ***Taraxicum berthae*** o Domenni Cwm, y Beddau, yn y gwanwyn 2018. Mae'n syndod darganfod bod yna nifer o rywogaethau gwahanol o ddant y llew, ac mae'r un peth yn wir am fieri.

Mae David Barden wedi bod yn edrych ar blanhigion Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac ar hyd glaswelltir gwlyn y gorlifdir ar hyd yr Afon Elái. Mae wedi llunio rhestr wych, gan gynnwys ***tegeirianau'r gors cynnar*** sydd, yn ôl David, â 2 gofnod ar ôl y flwyddyn 2000 ar gyfer Morgannwg, i'r dwyrain o Gynffig.

Anfonodd Richard Penrose grynodeb o'i brosiect prifysgol o chwarel Forest Wood, ger Llanharan. Ymhlith arolwg NVC ardderchog, roedd ***cwlwm cariad***, tegeirianau gwenynog (gan gynnwys rhai gwyn), ***tegeirianau llydanwyrdd***, ***caineirian*** a ***deintlys***, sy'n ychwanegu at restr glasurol o brysgoed carreg galch/rhywogaethau coetir.

Ym mis Gorffennaf, dangosodd Stuart Jones rai o uchafbwyntiau ei ddarn ei dir yn y Graig, Pontypridd i mi. Roedd hyn wedi cynnwys glaswelltir corslyd, doeddwn i ddim yn effro iddo o'r blaen, lle mae ***clychlys dail eiddew.***

**Ffwng**

Anfonodd Mark Evans ddiweddariad ata i ynglŷn â gwaith Gerddi Kew sef 'The Lost and Found Fungi' a chadarnhaodd y daethpwyd o hyd i ***Hypoxylon fuscoides*** ar werni mewn dau le yng Nghwm Cynon ac un lle ym Merthyr Tudful. ***Mae Hypoxylon fuscoides*** yn rhywogaeth newydd ei darganfod, wedi'i disgrifio'n asgomysét sy'n ffurfio dafadennau fel clustogau ar werni. Mae modd ei adnabod trwy adwaith porffor gyda hydrocsid potasiwm. Aeth Mark i safle SINC 135 (Dwyrain y Beddau) gyda Carys Romney, '*mae'n safle neis, gyda llawer o botensial ar gyfer darganfod. Y peth cyntaf des i o hyd iddo oedd **'Willow Glue fungus'** (**Hymenochaetopsis tabacina**) sef rhywogaeth letyol **Menig yr Helyg** (**Hypocreopsis lichenoides**) a **'Fringed Cup'** (**Encoelia fimbriata**). Bydda i'n mynd i'r safle eto ym mis Chwefror, pan fydd hi'n dymor y ddau fath o'r gawod goch brin sy'n tyfu ar **Polystichum setiferym**.*

Cofnododd Paul Denning y ***cap cwyr gwinau*** prin iawn ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Comin Llantrisant, a thynnodd lun ohono fe. Dyma rywogaeth newydd i RCT sy'n dangos bioleg pridd cymhleth safleoedd fel Comin Llantrisant sydd â hanes hir (canrifoedd, mil o flynyddoedd hyd yn oed) o strwythurau pridd heb eu troi.

**Glöynnod byw a Gwyfynod**

Mae Mark Evans a Mike Hogan wedi cofnodi nifer y ***swrcodau*** sy'n gaeafgysgu yn nwnnel Cefnglas ers nifer o flynyddoedd. Roedd 38 ym mis Ionawr 2018, a 35 yn 2019. Mae'r niferoedd yma yn llai na hanner y cyfanswm a gofnodwyd yn 2013 (82).

Ar 21 Mai, gwelodd Nick Sharp 41 ***glesyn bach*** ar hyd yr hen reilffordd i'r de o Lofa'r Cwm yn y Beddau. Roedd y glöynnod byw (sef glöyn byw lleiaf Prydain) wedi deor ar y ***blucen felen*** sy'n tyfu ar falast y rheilffordd sy'n llawn calch. Mae'r glesyn bach yn glöyn byw arfordirol yn ne Cymru, ond mae ei ffynhonnell o fwyd wedi ymestyn i'r Cymoedd ar hyd rheilffyrdd ac ar hen safleoedd datblygu llawn calch a thomenni glo. Er eu bod nhw'n brin, mae'n werth edrych amdano. Rydw i'n siwr bod yna rhagor o safleoedd heb eu darganfod yn RhCT.  Cafodd y ***gwynion blaen oren*** wanwyn gwych, roedd nifer ohonyn nhw'n mwynhau'r ***llaeth y cesig*** yn Nant Celyn, Efail Isaf ac mewn caeau gwlyb yn y Rhigos.

Roedd yr haul twym yn berffaith i rai o'n glöynnod byw. Mewn dôl wair mae'r Cyngor yn ei rheoli yn Llanharan, dydw i erioed wedi gweld cynifer o ***leision cyffredin*** o'r blaen. Ar ddiwrnod poeth ym mis Mehefin, gwelais gant ohonyn nhw'n hedfan dros laswelltir cyfoethog ***troed yr iâr***.

Cofnododd Margaret Harding haf siomedig o ran glöynnod byw yn y Beddau '*does dim llawer o löynnod byw eleni ond mae nifer o rai gwyn, roedd 8 yn hedfan uwchben ddoe ond dydw i ddim yn gwybod sut i wahaniaethu rhwng y gwyn bach a'r gwyn mawr. Oes ffordd haws? Yr wythnos ddiwethaf, gwelais i* ***felyn y rhafnwydd*** *yn yr ardd ond doedd dim amser i dynnu llun ar fy nghamera. Ddoe, roedd* ***mantell goch*** *ond roedd adain wedi'i thorri ac roedd* ***mantell garpiog*** *heddiw, felly maen nhw i'w gweld. Wedi gweld* ***gweirlöyn brych*** *sawl gwaith. Roedd gan fy nghymydog Maralyn nyth cacwn yn ei thŷ gwydr ond maen nhw bellach wedi'i adael. Mae llindys* ***teigr y benfelen*** *wedi dychwelyd i'r benfelen, ddim cynifer â'r arfer ond dydyn nhw ddim i'w gweld yn bwyta'r dail ar y blodau eleni. Yr wythnos ddiwethaf, roedd* ***draenog*** *yn fy ngardd. Dydw i ddim wedi gweld un yno ers blynyddoedd*.

Ym mis Mawrth 2018, dathlon ni ben-blwydd Cadwraeth Glöynnod Byw yn 50 oed ers iddi gael ei sefydlu gyda 'Great Llantrisant Rake Off' ar Gomin y Graig, Llantrisant. Ar ddiwrnod gwlyb, helpodd nifer o bobl leol sy'n frwd am löynnod byw (a llawer o wynebau cyfarwydd) i raca'r rhedyn wedi'u torri ar lethr sy'n cael ei hadfer yn gynefin glöynnod byw brithegion. Roedd hi'n wlyb ond yn waith gwerth chweil. Yn yr haf, roeddwn i'n falch o weld fioledau yn aildyfu. Cafodd y llethr ei thorri yn yr haf ac eto yn yr hydref gan Wasanaeth Tân De Cymru, felly mae'r 'Great Rake Off' wedi dechrau rhywbeth.

Roeddwn i wrth fy modd i weld ***brithegion y gors*** yn torheulo ar Gors Llanilltud Faerdref ar 20 Ebrill a gwelwyd glöynnod byw erbyn 22 Mai, gan gyrraedd 16 ar 6 Mehefin. Yn yr hydref, daeth Ben Williams a George Tordoff o hyd i 22 gwe larfaol, felly dyma obeithio am gyfnod ffyniannus yn 2019. *Cafodd brithegion y gors* flwyddyn wych yn eu hardal metaboblogaeth ogleddol yn Hirwaun. Roedd nifer yr oedolion yn dda a chafodd safleoedd newydd eu cytrefu, gyda hyd at 50 o weoedd larfaol ar un safle yn yr hydref. Yn Nhonyrefail, roedd y gwelliant yn y boblogaeth yn llai amlwg, ond mae'r brif boblogaeth ar y llethrau oddi isod Trebanog wedi aros yn yr un peth, ac mae safle cytrefu newydd y Waun wedi'i sefydlu (sy'n newyddion da). Yn ystod y gwaith chwilio am frithegion y gors yn Nhonyrefail, roedd cofnodion cadarnhaol iawn o sawl ardal lle mae ***brithegion perlog bach*** a ***brithribiniau gwyrdd*** a chofnod o wyfyn yr ***hen wrach***. Wrth i mi ddod o hyd i'r ardaloedd newydd (posibl) o gynefinoedd *brithegion y gors* ger y Rhigos, roeddwn i hefyd wrth fy modd i weld *brithribin gwyrdd.* Ar 20 Ebrill, gwelodd Paul Marshman *frithribiniau gwyrdd* ger ffynnon y Forwyn Fair yn Llwynypïa. Dyma ddiolch yn arbennig i Ben Williams, Richard Smith, Lucie Bromfield, George Tordoff, Paul Denning a Lorna Baggett am eu gwaith caled yn monitro *brithegion y gors*.

*Mae brithegion perlog bach* yn hoffi fioledau cors ar rostir pori gwlyb, ond mae gyda nhw gytrefi sy'n defnyddio fioledau cyffredin glaswelltir sychach a llethrau rhedyn. Maen nhw i'w gweld yn hoffi glaswelltir tomenni glo, lle cyfrifodd Ben Williams 48 o ***frithegion perlog bach*** yn hedfan yng Nghwm Clydach ar 6 Mehefin.

Yn hwyrach ym mis Mehefin, roeddwn i'n falch o weld ***brithribiniau gwyn*** yn hedfan o gwmpas y ***llwyfenni llydanddail*** ar y Broadway ym Mhontypridd (ychydig o gannoedd o lathrau o'r orsaf drenau). Cofnododd Alan Rosney *frithribin wen* o'i ardd yn Nantgarw, lle

gwelodd un yn yr haf ddwy flynedd yn ôl. Yn Safle Tirlenwi Bryn Pica, roeddwn i'n falch o weld ***gweirlöyn y clawdd*** ar 11 Mehefin, gyda'm hoff wenynen, sef ***gwenynen y mynydd*** (***Bombus monticola***).

Yn yr hydref, treuliodd Ben Williams, a staff y Cyngor o garfan Trefi Taclus, amser yn rheoli cynefinoedd glöynnod byw brithegion pwysig ym Mhentre'r Eglwys, Llantrisant ac ardal Tonyrefail. Does dim modd goramcangyfrif pwysigrwydd rheoli safleoedd o ran cadw rhai o'n cynefinoedd sy'n agored i niwed. Mae'r garfan bob amser yn gwneud gwaith gwych.

**Gwenyn a phethau eraill**
Yn yr haf, anfonodd Liam Olds y canlynol '*roeddwn i ar Domenni Glo Cwm ddoe (dydd Gwener) yn chwilio* **chwilod teigr gwyrdd** *a'u casglu i'r BBC eu ffilmio mewn stiwdio. Ddes i ddim o hyd i un ohonyn nhw, a oedd yn anarferol (mae'n bosibl eu bod nhw'n chwilio am gysgod yn ystod cyfnodau o dywydd poeth?) ond gwelais nifer o bethau eraill. Gwelais wenynbryf (**Western Bee-fly) (Bombylius canescens**). Yn yr adolygiad statws y llynedd, cafodd y gwenynbryf yma ei ddosbarthu'n Brin yn Genedlaethol. Gwelais hefyd gacwn **(Ornate-tailed digger wasps)** (**Cerceris rybyensis**) a Chwm yw'r unig tomen lo sydd â'r rhywogaeth. Roedd llawer o wenyn unigol, pryfed milwrol (**banded general soldierflies)** (**Stratiomys potamida**) yn y tyfiant, llawer o weision neidr, heliwr corrod, ac ati. Cymerais i'r safle yn ganiataol gan ei fod yn un o'r safleoedd cyntaf i mi ei astudio. Trwy fynd i'r safle ddoe, dyma'r domen lo orau o ran anifeiliaid di-asgwrn-cefn.*

Gwelodd Paul Marshman ***fursennod mawr tywyll*** yn y Gelli, Rhondda Fawr, yn gynnar ym mis Mehefin ac roeddwn i'n falch o weld tua dwsin ar yr Afon Taf yng Nghilfynydd yn hwyrach yn y mis, yn ogystal â ***picellwyr boliog***.

Roedd gwres yr haf yn dda ar gyfer y ***cacwn***, gwelais i nhw sail gwaith trwy gydol yr haf a'r hydref yn ardal caeau Llanilltud Faerdref. Ym mis Awst, gwelais i un yn hela ***glesion cyffredin*** ar hyd Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys.

**Mamaliaid**
Cofnododd David Harry ym mis Mawrth fod dau ystlum pedol lleiaf wedi defnyddio ei sied glo trwy gydol y gaeaf ond diflannodd nhw yn ystod y cyfnod o dywydd garw ym mis Mawrth. Rydw i'n tybio eu bod nhw wedi symud i safle gaeafgysgu arall, dydy ystlumod ddim yn cysgu nac yn ddisymud trwy gydol y gaeaf. Maen nhw'n symud rhwng safleoedd gaeafgysgu yn ystod y gaeaf wrth i'r tymheredd newid. Mae'n debyg, yn sgil y tywydd garw ym mis Mawrth, fod sied glo David yn rhy oer iddyn nhw felly symudodd nhw.

Gwelodd Paul Denning ***lygoden yr ŷd*** wrth chwilio am frithegion y gors yn Nhonyrefail. Fel y darllenwch chi uchod, rydyn ni wedi cael sawl cofnod am ***ddraenogod*** eleni, rydw i'n gweld draenogod wedi'u lladd ar y ffordd wrth deithio o gwmpas RhCT: Rydw i'n ceisio cofio anfon y cofnodion i SewBrec.

Roedd y nifer uchaf erioed o ***ystlumod pedol lleiaf*** yn y man clwydo yn ardal Llanharan. Wedi'i arwain gan Ade Williams, cyfrifodd Valleys Bat Group uchafswm o dros 400 o ystlumod. Cymerais ran yn y gwaith cyfrif ar 26 Mehefin lle daeth tua 350 o ystlumod o'r ddau brif fan clwydo. Mae'n brofiad gwych gwylio a gwrando ar gannoedd o ystlumod pedol lleiaf ar noswaith dwym ym mis Mehefin – roedd hi'n werth dioddef clefyd y gwair !!

Does dim llawer o gofnodion am geirw yn RhCT, i ryw raddau, mae'n bosibl bod ein planhigion ar y coetir yn well yn sgil diffyg ceirw (mae poblogaeth gynyddol ceirw yn East Anglia yn broblem sylweddol o ran eu blodau coetir a rhywogaethau adar fel yr eos), ond wrth i boblogaeth ceirw gynyddu mewn ardaloedd eraill, maen nhw'n debygol o gytrefu ein tirweddau. Doedd dim syndod felly weld carw wedi'i ladd ar Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys ger cyffordd Llanilltud Faerdref ar 16 Mehefin. Gwelodd Ben Williams y carw hefyd a stopiodd i nodi mai ***iwrch*** gwrywaidd.

Ym mis Ionawr 2019, gwelodd Suraj Vaghani a Liver Jefferies 3 ***dyfrgi*** ar yr Afon Elái wrth archwilio pont, '*pan welais i'r dyfrgwn, galwais ar y bechgyn i edrych, erbyn iddyn nhw ddod, roedd y dyfrgwn wedi mynd – (wrth gwrs) ond wrth fod o dan y bont, daeth dyfrgi o'r dŵr wrth ein hymyl a nofiodd i ffwrdd'*. Yn ystod y gaeaf yma, rydyn ni wedi clywed bod nifer o bobl o Gwm Rhondda wedi gweld dyfrgi yn aml yn ardal Trehopcyn/Trehafod, cafodd fideos gwych eu tynnu ar ffôn rhywun.

Mae newyddion cyffrous iawn am **llygod pengron y dŵr**. Trwy waith wedi'i gynnal gan Scott Hand, Rob Parry a Hayley Bartlett, rydyn ni bellach yn gwybod bod poblogaeth ym mhlanhigfeydd y goedwigaeth a chorsydd mawn i fyny'r Rhondda. Mae'r poblogaethau yma i'w gweld ar draws y bryniau, wrth ymyl nentydd a phyllau. Yn yr haf, maen nhw'n bwydo ar frwyn a glaswellt yr ucheldir a chynefin glaswelltir corslyd. Anfonodd Mark Evans luniau o lygoden y gwair yn gollwng a bwydo tystiolaeth o fan uwchben Llwydcoed a gymerodd e ychydig flynyddoedd yn ôl. Mae'r rheiny yn edrych fel llygod pengron y dŵr hefyd. Dyma ddarganfyddiad newydd sy'n rhoi gobaith bod niferoedd da o'r rhywogaeth yn goroesi yn ein huwchdiroedd. Gallai'r darganfyddiad yma fod o bwysigrwydd cenedlaethol.

Ym mis Chwefror 2018, cawson ni wybod am ***fochyn daear*** oedd wedi marw yn y llyn uchaf yng Nghwm Clydach. Casglon ni'r mochyn daear a doedd dim arwyddion ei fod wedi ymladd gyda chŵn, neu rywbeth o'r fath. Roedd yn bryder ystyried sut aeth e i mewn i'r dŵr achos roedd i'w weld fel bod yr anifail wedi boddi. Rhoddwyd gwybod am y digwyddiad. Roedd dau fochyn daear wedi'u lladd gan gerbyd mewn dau leoliad gwahanol yn ardal Pentre'r Eglwys ym mis Ebrill.

**Amffibiaid ac Ymlusgiaid**

Yn 2018, roedd gyda fi glwstwr o rifft brogaod ym mwll fy ngardd ar 18 Ionawr. Erbyn yr 20fed, roedd 13 o frogaod (3 benywaidd) gyda 4 clwstwr o rifft, ac erbyn y penwythnos roedd 40 o frogaod yn y pwll. Ar ôl y cyffro, roedd grifft brogaod ar raddfa lai ym mis Mawrth (y 17eg) gyda 4 neu 5 o frogaod. Er gwaethaf y pwll wedi'i rewi ym mis Mawrth, roedd e'n llawn penbyliaid. Nofiodd y rhai cyntaf yn rhydd ar 3 Ebrill, a daeth y brogaod ifainc (er gwaethaf eu dechrau cynnar) o'r pwll yn gynnar yn yr haf eleni. Yng Nghwm Rhondda, cafodd David Kerr ei rifft brogaod cyntaf ar 30 Ionawr 2018.

Gwelodd Gareth Henson rifft llyffaint duon ym Mharc Gwledig Barry Sidings, Trehopcyn, ar 6 Ebrill. Ym mis Mehefin, rhoddodd Mike Reeves wybod am ***fadfall cyffredin*** a welodd yn ei ardd gefn yn y Beddau.

**Cimychiaid Afon America**

Daeth Ben Williams o hyd i ***gimychiaid afon America*** yn yr Afon Taf yng Ngarw Nant. Dyma'r tro cyntaf i Ben ddod o hyd i'r cimychiaid estron yn yr afon.

Unwaith eto, ymddiheuriadau am yr oedi o ran llunio a dosbarthu Cylchlythyr 2018. Parhewch i anfon eich cofnodion ar gyfer y cylchlythyr nesaf.

Richard Wistow
Cyngor Rhondda Cynon Taf, Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU
richard.j.wistow@rctcbc.gov.uk

Mae polisi preifatrwydd y Cyngor ar gael ar y wefan www.rctcbc.gov.uk/EichHawliauGwybodaeth. Byddwn ni dim ond yn cadw manylion eich enw a chyfeiriad / neu gyfeiriad e-bost at ddibenion anfon y cylchlythyr atoch chi.  Os ydych chi eisiau tynnu'ch manylion cyswllt oddi ar y rhestr ddosbarthu, e-bostiwch Parciaucefngwlad@rhondda-cynon-taf.gov.uk ar unrhyw adeg.